# Cynorthwyo cwsmeriaid i symud ac ymgartrefu mewn amgylcheddau byw newydd

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â chynorthwyo cwsmeriaid i symud ac ymgartrefu mewn amgylcheddau byw newydd.  Gallai hyn gynnwys symud unigolion a theuluoedd o lety dros dro a'u hailsefydlu mewn cartrefi parhaol.  Gallai hefyd gynnwys cynorthwyo unigolion sy'n symud o amrywiaeth o wahanol leoliadau fel amgylcheddau diogel, y lluoedd arfog, yr ysbyty neu ganolfannau adsefydlu o ganlyniad i gyffuriau.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. gweithio gyda chydweithwyr i sicrhau'r math perthnasol o lety i gwsmeriaid
2. cynorthwyo cwsmeriaid i nodi a chyfleu eu gofynion ynghylch symud o'u trefniadau byw cyfredol i amgylchedd byw newydd
3. cynllunio'r camau ar gyfer y symud a nodi dulliau fydd yn galluogi'r broses symud i gael ei chynnal
4. rhoi gwybodaeth i gwsmeriaid am y broses symud
5. gwneud cwsmeriaid yn ymwybodol o'r effaith y gallai newidiadau yn eu hamgylchedd byw ei chael arnynt
6. ymgymryd â gwaith yn unol â'r codau ymddygiad a'r ddeddfwriaeth berthnasol
7. cynorthwyo cwsmeriaid i symud ac ymgartrefu yn eu hamgylchedd byw newydd
8. gweithio gyda chwsmeriaid, cydweithwyr a phobl berthnasol yn yr amgylchedd newydd i gynllunio'r broses symud, gan gadarnhau ei bod yn ystyried gofynion y cwsmeriaid
9. cynorthwyo cwsmeriaid i addasu i'r trefniadau byw newydd
10. rheoli disgwyliadau cwsmeriaid a rhoi cyngor ar gwynion neu weithdrefnau apelio eich sefydliad
11. cymryd camau yn unol â gofynion sefydliadol a chyfreithiol perthnasol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. nodau a gofynion y cwsmer
2. sut i weithio mewn partneriaeth â chwsmeriaid, cydweithwyr a sefydliadau allanol wrth wneud trefniadau ailsefydlu
3. y gweithdrefnau sefydliadol a'r ddeddfwriaeth berthnasol ar gyfer cydraddoldeb ac iechyd a diogelwch.
4. sut mae'n rhaid i'ch sefydliad gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol ym maes diogelu data
5. yr ystod o gefnogaeth a chymorth sydd ar gael i gwsmeriaid symud ac ymgartrefu mewn amgylcheddau byw newydd
6. sut mae nodau a gofynion y cwsmer yn effeithio ar eu dewisiadau
7. sut y gall gwahanol egwyddorion, blaenoriaethau a chodau ymarfer sefydliadol effeithio ar weithio mewn partneriaeth
8. y camau, y gweithdrefnau, y gwaith papur a'r sefydliadau perthnasol sy'n ymwneud ag ailsefydlu mewn amgylcheddau byw newydd
9. mentrau llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig sy'n effeithio ar faes eich gwaith
10. sut a ble i gael gafael ar lenyddiaeth, gwybodaeth a chymorth i lywio eich arferion gwaith
11. yr ystod lawn o offer a mecanweithiau cymorth sydd ar gael i chi
12. terfynau eich cyfrifoldebau eich hun a goblygiadau gweithredu y tu allan i'r terfynau hyn

INSHOU32

Cynorthwyo cwsmeriaid i symud ac ymgartrefu mewn amgylcheddau byw newydd

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills CFA |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 29 Maw 2019 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 06 Ion 2024 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Instructus |
| **RCU gwreiddiol** | ASTH323 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cynorthwy-ydd Cynnwys Preswylwyr, Cynorthwy-ydd Tai, Cynorthwy-ydd Cymdogaeth, Gweinyddwr Tai, Cynorthwy-ydd Gosod Eiddo, Rheolwr Portffolio Cynorthwyol (heb bortffolio), Trafodwr Gosod Llety, Cynorthwy-ydd Refeniw, Cynorthwy-ydd Atgyweirio |
| **Cyfres/Set** | Tai |
| **Geiriau Allweddol** | eiddo; ymchwilio; delio; torri cytundeb; llety; tenantiaeth; trwydded; lesddeiliad; cytundebau; cwsmeriaid; dogfennaeth; diogelwch; cymorth; deddfwriaeth; cydraddoldeb; amrywiaeth; diogel; trefnu; unigolion; ymgartrefu; amgylcheddau byw; teuluoedd; |